Rhifyn 5

Gwanwyn 2008

Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth

Beth ydy'r Pwyllgor Ardal?
Grwp sydd yn dod at ei gilydd i drefnu pethau yn y gymuned.
Pwy ydy'r aeolodau?
Rhywun sydd yn byw yn neu gyda diddordeb yn Nebo a Nasareth.
Sut mae'n gweithio?
Mae yna gyfarfodydd misol lle mae pobl yn dod at eu gilydd i drafod a threfnu.
Pa bryd?
Nos Fawrth Cyntaf o bob mis am 7.30yh.
Lle?
Ystafell Gymuned Nebo, uwch ben Ysgol Nebo.

Croeso i bawb!

Siop Nasareth

Diolch i Len a Val Pearce am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd. Caewyd y siop am y tro olaf ar 1 Ebrill ar ol 38 mlynedd. Dymuna'r gymuned bob hapusrwydd iddynt yn eu ymddeoliad.

Gwasanaethau yn ein Cymuned

Swyddfa'r Post
Bydd gwasanaeth symudol Swyddfa'r Post ar gael ar dydd Llun:
Nasareth (tu allan i'r siop) 10.45yb-11.45yb
Nebo (Y Sgwar) 11.45yb-12.45yh

Gwasanaeth Llyfrgell
Pedwerydd dydd Llun ym mhob mis, ymweliad nesaf 21 Ebrill:
Pont Lloc 9.30yb-10.05yb
Sgwar Nebo 10.15yb-10.45yb
Nasareth 10.55yb-11.20yb

Heddlu'r Gymuned
Os hoffech air, ffoniwch Gwyn neu Michael ar 07854 396985 neu 07854 332216 i drefnu.

Digwyddiadau'r Dyfodol

Cynhelir Taith Gerdded
Ar dydd Sul 11 Mai am 2.00yh yn draddodiadol o amgylch Y Gors. Cyfarfod o flaen yr ysgol – dewch a lluniaeth gyda chi.

Teithiau Cerdded
Bydd y teithiau cerdded yn dilyn llwybrau lleol yn ailgychwyn yn ystod mis Mai. Gweler y Caernarfon and Denbigh Herald neu ffestestr yr ysgol am fanylion.

Cynhelir Ras Hwyiaid
Ar dydd Iau 17 Gorffenaf am 6.30yh ym Mhont Esther (heibio'r ysgol). Bydd dyfarnu'r gystadleuaeth tyfu tatws yn dilyn yn y cae chwarae – dewch a lluniaeth gyda chi.

Archebu Olew i Drigolion y Gymuned

Mae'r pwyllgor am holi os oes modd dechrau cynllun i brynu crynswth o olew ar gyfer nifer o dai gan obeithio cael gwell pris. Os oes gennych ddiddordeb mewn cynllun o'r fath, cwblhewch eich manylion isod a dychwelyd y ffurflen i brif fynedfa'r ysgol.

Pa fisoedd fyddwch yn arfer cael olew?

Faint o olew fyddwch chi'n arfer gael?

Pa gwmni ydych yn arfer ddefnyddio?

Be oedd y pris fesul litr?

ENW:

CYFEIRIAD:

RHIF FFÔN: